Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Ysgol GG Rhos-Afan
Marine Drive
Sandfields
Port Talbot
SA12 7NN

12/12/2024

Annwyl Julia Griffiths

**Ymweliad Interim:** Tachwedd 2024

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Rhosafan yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â dau o'r argymhellion o'u harolygiad craidd ym mis Mehefin 2022. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn yr argymhellion hynny.

Yn ystod yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i:

- ymweld â dosbarthiadau
- siarad â disgyblion
- cyfarfod gydag athrawon ac arweinwyr
- craffu ar waith disgyblion
- craffu ar ddogfennaeth

Mae arweinwyr a staff yn yr ysgol wedi gweithio'n fwriadus i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn. Maent yn cydnabod bod agweddau i'w datblygu ymhellach.

**Ffocws yr ymweliad**

**Sicrhau disgwyliadau uchel ar gyfer bob disgybl i gyflawni hyd eithaf eu gallu**

- Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gynnydd yr ysgol tuag at fodloni gofynion yr argymhelliad hwn. Mae'r prosesau hunanwella yn adnabod y cryfderau a'r agweddau ar gyfer gwelliant yn drylwyr. Mae arweinwyr yn creu diwylliant ac ethos buddiol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol staff.
- Ers yr arolygiad craidd, mae staff wedi derbyn cyfleoedd dysgu proffesiynol bwriadus i fynd i'r afael â datblygu medrau llafar Cymraeg disgyblion. Trwy hyn, mae'r strategaethau ar gyfer datblygu llafaredd disgyblion yn glir. Caiff hyn eu gweithredu gan staff yn effeithiol, er enghraifft o fewn y sesiynau 'drilio disglair' a 'sgleinio ein sgyrsiau'. Mae'r ddarpariaeth yn gyson ar draws yr ysgol ac yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu geirfa a phatrymau Cymraeg yn

llwyddiannus. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu amrediad cynyddol o eirfa a phatrymau pwrpasol ac maent yn hyderus wrth gyfathrebu â’u cyfoedion a staff.

- Mae perthynas waith lwyddiannus rhwng staff a disgyblion yn creu amgylchedd dysgu cefnogol a chynhwysol. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o’r disgyblion ac yn eu helpu i wneud cynnydd cyson dros gyfnod. Maent yn fodelau iaith effeithiol ac yn darparu adborth amserol a chefnogol i ddisgyblion. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llafar.
- Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando’n astud ac yn parchu cyfraniadau ei gilydd ac oedolion yn gyson. Gyda chefnogaeth ac anogaeth cyson staff, mae’r rhan fwyaf yn caffael y Gymraeg yn gyflym. Wrth i ddisgyblion symud drwy’r ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau i ddatblygu eu medrau llafar yn Gymraeg yn llwyddiannus. Ar draws yr ysgol, ar y cyfan, mae’r disgyblion yn sgwrsio’n gynyddol hyderus gan ddefnyddio geirfa a phatrymau Cymraeg cywir yn effeithiol.
- Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llafar ar draws y cwricwlwm yn fedrus. Maent yn bachu ar bob cyfle i atgyfnerthu medrau llafar y disgyblion. Er enghraifft, mae staff y disgyblion ieuengaf yn cyflwyno geirfa newydd a phatrymau iaith trwy gân yn ystod amser ffrwyth, a’r disgyblion hynaf yn sgwrsio’n frwdfrydig tra’n cyfleu eu barn am ba anifail anwes fyddai orau. Mae hyn yn galluogi disgyblion i gymhwyso eu geirfa a phatrymau Cymraeg mewn cyd-destunau ysgogol ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus.

**Darparu gweithgareddau sydd yn herio pob disgybl i gymhwyso eu medrau i safon uchel ar draws y meysydd dysgu**

- Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gynnydd yr ysgol tuag at fodloni gofynion yr argymhelliad hwn. Maent yn cydnabod y gwelliannau yn y ddarpariaeth ers yr arolygiad craidd, ac yn adnabod yn briodol yr elfennau sydd agen gwella.
- Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi pwyso a mesur effaith eu gweithdrefnau cynllunio ar ddeilliannau disgyblion yn ofalus. Wrth i arweinwyr fonitro yn drylwyr, cynnal trafodaethau proffesiynol a staff yn mynychu hyfforddiant dysgu proffesiynol perthnasol, mae’r ysgol wedi datblygu dull newydd o gynllunio ar gyfer y tymor canol a thymor byr. Er enghraifft, wrth gynllunio yn y tymor byr, disgwylir i athrawon ystyried y fframwaith rhifedd ac i nodi yr hyn sy’n cael ei addysgu fel bod modd olrhain bylchau yn y ddarpariaeth yn effeithlon. Wrth i athrawon ymateb i’r bylchau hyn, sicrheir bod y disgyblion yn datblygu yr ystod lawn o fedrau.
- Ar y cyfan, mae athrawon yn sicrhau bod y medrau mathemategol yn cael eu haddysgu mewn dull adeiladol, sy’n galluogi’r disgyblion i gyflawni a chwblhau eu tasgau rhifedd yn amserol i’r un lefel â’u medrau mathemateg ar draws y cwricwlwm.
- Mae arweinwyr yn monitro cynlluniau'r athrawon yn rheolaidd er mwyn gwirio eu bod yn ymateb i ofynion Cwricwlwm i Gymru yn fwriadus, ynghyd â chynnig cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ar draws y meysydd dysgu. Golyga hyn fod gan athrawon ddisgwyliadau uchel o’r disgyblion wrth eu cynorthwyo i gymhwyso eu medrau hyd orau eu gallu. Ar y

cyfan, mae athrawon yn sicrhau bod bron bob disgybl yn dysgu mewn gweithgareddau diddorol sy'n datblygu eu medrau, gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae medrau llythrennedd, rhifedd a digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn.
- Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae llawer yn adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol mewn gweithgareddau ar draws y cwricwlwm gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gwahanol i gymhwyso eu medrau mewn cyd-destunau priodol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6712158

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol